Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 24AIN IONAWR, 2020**

Lleoliad

**Ystafell Madog, Coleg Llandrillo, Ffordd Llandudno, Llandrillo yn Rhos, Conwy LL28 4HZ**

Pwynt Cyswllt


**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 17 Ionawr 2020)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Dinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdesitref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Sam Rowlands | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Jim Jones | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir Y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdesitref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Rhaglen |
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAERNOROL 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15 Tachwedd 2019 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD CYNNYDD 10 - 12

Adroddiad gan Jane Richardson – Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais.

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2019) 13 - 18

Adroddiad gan Dafydd L.Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya.

## 7. CAIS EFL 19 - 22

Adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 9. CADEIRYDD Y BWRDD CYFLAWNI BUSNES - RHESTR FER

Tynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer y swydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes(ceisiadau a dogfennau ategol i'w cylchredeg ar wahân ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig).

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**15.11.2019**

<u>Yn bresennol:</u>

<u>Aelodau â Phleidlais</u> – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig L. Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

<u>Ymgynghorwyr</u> – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Bryn Jones (Prifysgol Bangor), Jim Jones (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

<u>Prif Swyddogion</u> – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Dinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint).

<u>Swyddogion yn bresennol</u> – Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Sian Lloyd Roberts (Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), David Roberts (Cadeirydd y Barterniaeth Sgiliau Rhanbarthol) ac Annes Sion (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Jane Richardson, Cadeirydd y Grŵp Swyddogion Gweithredol i'r cyfarfod a diolchwyd iddi am gymryd yr awenau dros dro.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Jones (Coleg Cambria), Yr Athro Iwan Davies ( Prifysgol Bangor) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2019 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN TWF**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Colin Everett, Y Prif Weithredwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

Derbyniwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar Gynllun Twf Gogledd Cymru a cytunwyd fod angen ychwanegu y ddau risg isod i'r gofrestr risg:

- Y buasai llithriad yn yr amserlen i gyrraedd Cytundeb Terfynol yn cael effaith ar dderbyn arian y Cynllun Twf gan y Llywodraeth, ac yna yn cael effaith ar y gallu i gyflawni prosiectau yn llwyddiannus o fewn yr amserlen.
- Cynllun Economaidd Llywodraeth Cymru ddim yn cyd fynd gyda'r Weledigaeth Twf gan y Bwrdd Uchelgais

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad ar ddatblygiad Cynllun Twf Gogledd Cymru a thynnwyd sylw at arwyddo'r Penawdau'r Telerau, Penodiadau yn y swyddfa'r rhaglen ynghyd ac adrodd ar waith o adolygu a diweddaru'r Rhaglen Waith ynghyd a chofrestr risg.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bellach fod y Penawdau'r Telerau wedi ei llofnodi cyn y cyfnod cyn etholiadol. Ychwanegwyd drwy eu llofnodi fod £240 miliwn o fuddsoddiad wedi ei sicrhau ac y bydd angen llofnodi'r fargen derfynol yn ystod trydydd chwarter 2020/21.

Mynegwyd fod pum penodiad wedi ei wneud i'r Swyddfa Rhaglen a bod lleoliad i'r Swyddfa Rhaglen wedi ei gadarnhau. Nodwyd y bydd trafodaeth bellach ar y rhaglen waith a'r gofrestr risg yn y cyfarfod nesaf. Pwysleisiwyd y bydd angen ychwanegu risg i'r gofrestr yn nodi pe bai llithriad yn yr amserlen i gyrraedd Cytundeb Terfynol byddai'n cael effaith ar dderbyn arian y Cynllun Twf gan y Llywodraeth.

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd yn 2020 a diolchwyd i staff am eu gwaith yn ystod y cyfnod dros dro.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Trafodwyd strwythur y Swyddfa raglen..
- Diolchwyd i'r aelodau am fynd i lofnodi'r Penawdau'r Telerau.
- Nodwyd o ran y gofrestr risg nad yw Cynllun Economaidd Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd a'r Weledigaeth Twf ac y gallai fod yn risg.
- Ategwyd fod y cyfarfod nesaf wedi ei amserlennu i fod ddiwrnod ar ôl yr etholiad, o ganlyniad i hyn penderfynwyd gohirio'r cyfarfod.

**6. CAIS AM ARIAN ESF**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Jane Richardson, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy.

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:

- Ddirprwyo'r hawl i Gyngor Gwynedd fel Corff Lletya i baratoi a chyflwyno'r Cynllun Busnes i WEFO ar sail cynnwys yr adroddiad.
- Ddirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr y Corff Lletya mewn ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Uchelgais a Swyddog 151 y Corff Lletya i dderbyn cynnig grant gan WEFO yn seiliedig ar 50% o gyfanswm cost y prosiect (£5.6miliwn) ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2018 hyd at Fehefin 2023.
- Gadarnhau y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cytuno i gyfrannu 50% o arian cyfatebol yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau a chyllideb graidd (o gyfraniadau partneriaid).

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod y Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi bod yn gweithio ar gais Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i ddylunio ac adeiladu'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf Gogledd Cymru. Ychwanegwyd y bydd y grant ESF yn rhoi arian i'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu'r weledigaeth Twf drwy sefydlu Swyddfa Rhaglen. Mynegwyd fod y cam cyntaf y cais wedi ei gwblhau ac mae WEFO wedi cadarnhau y gall y Bwrdd Uchelgais fwrw ymlaen i'r cam Cynllunio Busnes.

Ategwyd fod y Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi datblygu'r manylion ar gyfer y Cynllun Busnes a bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i WEFO yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at addasiadau i'r adran gyllidol yn yr adroddiad. Ychwanegwyd fod cam cyntaf y cais wedi ei gwblhau ac mae WEFO wedi cadarnhau y bydd modd bwrw ymlaen i'r cam Cynllunio Busnes.

Ategwyd fod strwythur staffio wedi ei greu ac y bydd angen rhai aelodau staff yn eu lle erbyn mis Ebrill er mwyn i WEFO edrych yn ffafriol ar y cais. Ychwanegwyd os bydd y Bwrdd Uchelgais yn llwyddiannus ar cais bydd modd ôl-ddyddio costau staff ac yn galluogi'r rhanbarth i adhawlio costau staffio o Orffennaf 2018.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd fod y Bwrdd Uchelgais wedi cadw argostau yn isel a buasai cael adhawlio costau staffio yn sicrhau y bydd arian wrth gefn i gymorthdalu amrywiol gostau.
- Holwyd beth oedd amserlen cael gwybod os yn llwyddiannus a'r cais, nodwyd y bydd yn anodd cael dyddiad pendant ond y bydd yn fwy clir yn dilyn cyflwyno'r cais i WEFO.
- Mynegwyd y bydd y swyddi a fydd yn cael eu penodi o fis Ebrill ymlaen yn ddibynnol ar gadarnhau y bydd y Bwrdd Uchelgais yn derbyn yr arian grant ac na fydd y swyddi yn cael eu hysbysebu nes y bydd cadarnhad o'r arian grant.

**7. CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan David Roberts, Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a Sian Lloyd Roberts, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ranbarthol a cytunwyd ar y tair blaenoriaeth sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2019-2022 wedi'i ddatblygu fel Sylfaen i ddull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru i gyflawni darpariaeth sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth.

Mynegwyd fod yr adroddiad yn adrodd i'r Bwrdd ar y cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ranbarthol sydd wedi ei gynhyrchu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

yn dilyn ymgynghoriadau gyda'r rhan ddeiliaid a darparwr rhanbarthol a'r diwydiant rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn amlinellu rhai o'r cynlluniau yn dilyn ymgynghoriad eang a gynhaliwyd yn ystod yr haf. Mynegwyd eu bod yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno a'r cynllun fel bod modd symud ymlaen a'r cynlluniau. Ategwyf fod Uwchgynhadledd Sgiliau yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd a fydd yn amlygu 'r prif ffocws.

Pwysleisiwyd fod y blaenoriaethau wedi eu creu yn dilyn casglu tystiolaeth gyda rhan ddeiliaid. Amlinellwyd y blaenoriaethau gan nodi mai'r camau nesaf fydd i ddatblygu'r blaenoriaethau ymhellach ar gyfer creu cynllun gweithredu penodol a manwl a fydd y ogystal yn gynllun cyflawni yn y tair blynedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd am y cyflwyniad a chytunwyd ar y 3 blaenoriaeth gan ychwanegu efallai pedwerydd - swyddi cynaliadwy. Ategwyd fod angen cadw staff yn eu swyddi er mwyn lleihau staff trosiannol ac i gadw talent yn yr ardal.
- Mynegwyd fod angen pwysleisio fod y maes twristiaeth yng Nghymru yn un ble mae modd datblygu a derbyn cyflogau uchel.
- Nodwyd fod y gwaith gan Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau wedi cael effaith positif ar sut mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei weld gan y Prifysgolion a'r Colegau.
- Tynnwyd sylw at y Gymraeg gan amlygu mai dim ond un frawddeg sydd yn cyfeirio at y Gymraegyn y Cynllun. Mynegwyd fod angen uchafu'r Gymraeg.
- Amlygwyd fod materion gweledig yn codi o ran anawsterau mynediad, nodwyd fod cynllun Leader ar gael ond efallai y bydd yn dod i ben ac o ganlyniad fod angen ei nodi fel bygythiad.

## 8. FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Andrew Farrow (Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi - Cyngor Sir y Fflint)

**PENDERFYNIAD**

Diwygio'r ymateb i ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2, i gynnwys unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cyfarfod hwn o'r Bwrdd Uchelgais a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 18 Tachwedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn pennu ymhle y bydd datblygiadau'n digwydd o fewn y rhanbarth. Ychwanegwyd ei bod yn hanfodol fod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn adlewyrchu yn gywir amcanion y Bwrdd Uchelgais a'r Strategaeth Economaidd Ranbarthol sydd wedi'i mabwysiadu a'r Cynllun Twf sydd ar ddod.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi ble fydd datblygiadau yn cael ei gwneud hyd 2040. Mynegwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal ar y fframwaith fod 13 pwynt wedi eu codi gan y Bwrdd Uchelgais. Amlygwyd yr 13 pwynt.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod cyfle i drafod y materion yma a'r Aelodau Cabinet ddydd Iau nesaf
- Mynegwyd fod angen edrych ar drafnidiaeth dros y ffin yn Lloegr ac i beidio canolbwyntio ar Gymru yn unig.
- Mynegwyd y bydd disgwyliad gan y Llywodraeth i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu haddasu i gyd fynd a'r fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
- Pwyslesiwyd fod angen i'r ymateb fod yn fwy siarp a nodi'r risgiau yn glir drwy addasu'r paragraff cyntaf. Nodwyd y bydd ymatebion yn mynd o bob awdudrdod lleol yn ogystal.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.30yp.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**24ain IONAWR, 2019**

**TEITL:** *Adroddiad Diweddariad Cynnydd*

**AWDUR:** *Jane Richardson – Cadeirydd Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Diweddaru aelodau ar gynnydd ers y cyfarfod diwethaf.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Diweddaru ar y cynnydd gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol.

3.2. Adrodd ar y penodiadau i'r Swyddfa Rhaglen, ac ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4.1. Penawdau'r Telerau**

- Yn dilyn arwyddo Penawdau'r Telerau yn ystod mis Tachwedd, cafodd y ddogfen eu dychwelyd i Llywodraeth Cymru, gyda Chopi Ardystiedig yn cael eu rannu a pob partner.

**4.2. Swyddfa Rhaglen**

- Mae 4 aelod o staff wedi cychwyn yn ei swyddi:

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Rhaglen |
| Hedd Vaughan-Evans | Rheolwr Gweithrediadau |
| Stuart Whitfield | Rheolwr Rhaglen Digidol |
| Henry Aron | Rheolwr Rhaglen Ynni |

- Bydd y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo yn cychwyn yn ei swydd yn ystod Mawrth/Ebrill 2020.
- Mae'r tîm Swyddfa Rhaglen wedi eu lleoli yng Nghanolfan Fusnes Conwy, sydd yn drefniant cychwynnol fydd yn cael ei adolygu ar gyfer y tymor hir.

**4.3. Llywodraethu**

- Mae Gweithdy Llywodraethu wedi drefnu ar gyfer 14eg o Chwefror 2020.
- Cafodd rôl Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes ei hysbysebu cyn y Nadolig, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydi 17eg o Ionawr 2020. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn tynnu rhestr fer, ac bydd yn cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru a cyfweliadau i ddilyn.

**4.4. Grŵp Swyddogion Gweithredol**

- Mae'r Cynllun Trosiannol wedi ei reoli yn dda gan y Grŵp Gweithredol.
- Mae'r Grŵp Gweithredol yn adolygu pwrpas a rôl y grŵp yn dilyn sefydlu'r Swyddfa Rhaglen. Ar gyfer y dyfodol bydd y Grŵp Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd busnes, a chyfarfodydd strategol bob yn ail.
- Rydym wedi bod yn gweithio ar gryfhau ein perthynas weithio gyda Tîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, gan drafod sut gallwn weithio ar y cyd ar y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ac adolygu'r Weledigaeth Twf.

**4.5. Blaen raglen waith y Swyddfa Raglen**

- Mae'r Swyddfa Rhaglen ar hyn o bryd yn gosod ei blaen raglen waith.
- Mae rhai o'r prif dasgau/blaenoriaethau yn cynnwys yr isod:
    - Cytuno ar y Cais ESF, gan flaenoriaethu'r swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen o fis Ebrill 2020 ymlaen;
    - Datblygu Strategaeth a Cynllun Cyfathrebu;
    - Creu naratif newydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Tŵf;
    - Cynllunio a rheoli rhan ddeiliaid;
    - Gweithio ochr yn ochr gyda'r Grŵp Gweithredol er mwyn adolygu'r Weledigaeth Tŵf;
    - Gweithredu prosiectau'r Cynllun Tŵf, gan gynhyrchu Achosion Busnes 5 Cam.

**4.6. Diweddariad y Cadeirydd**

- Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Cadeirydd Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn wedi mynychu'r digwyddiadau isod ar ran y Bwrdd:
    - Seminar OECD - Tachwedd 27ain 2019
    - Lansiad Cynllun Sgiliau Gogledd Cymru - Tachwedd 28ain 2019
    - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cymru - Ionawr 15fed 2020

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad yn ystod cyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 10fed o Ionawr 2020.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Lletya:**

"Ychwanegaf unrhyw sylwadau yn y cyfarfod pe cyfyd angen."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Lletya):**

"Cadarnhaf byddaf yn cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Rhaglen ar agweddau 'Cyllidol' o'r Rhaglen Waith. Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd."

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**24/01/2020**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw 2019/20 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2019)

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2019/20 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**2.1 Derbyn Adolygiad Trydydd Chwarter y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.**

**2.2 Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2019/20 i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a fydd ar gael yn y dyfodol.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nodi amcangyfrif o danwariant o £117,424 yn 2019/20 a gaiff ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a sefydlwyd ar ddiwedd 2018/19.

**4. Cefndir**

4.1 Yn ystod 2019/20, ymgymerwyd ag adolygiadau chwarterol ac fe'u hadroddwyd i gyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

4.2 Cyflwynir yr adroddiad alldro a'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20 i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 12 Mehefin 2020.

**5. Gwariant ac incwm yn 2019/20**

5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2019/20, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Ar ddiwedd y trydydd chwarter, y sefyllfa wirioneddol oedd gwarged o £366,150.

5.3 Disgwylir i'r sefyllfa alldro net ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddangos tanwariant o £117,424. Daw cyllid 2019/20 gan gyfraniadau partneriaid, arian grant ESF (os caiff ei gymeradwyo) a grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru).

Swyddfa Rheoli Rhaglen

5.4 Amcangyfrifir tanwariant pellach o £70,261 ar y pennawd hwn yn bennaf yn sgil oedi wrth recriwtio i swyddi a gostyngiad yng ngwariant y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi'r Rhaglen.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5 Rhagwelir tanwariant pellach o £11,070 ar wasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya) yn 2019/20.

Cyd-bwyllgor

5.6 Amcangyfrifir tanwariant o £11,634 ar bennawd cyllideb Cytundeb Llywodraethu 2 gan na fydd fersiwn terfynol y ddogfen gyfreithiol wedi'i gwblhau tan flwyddyn ariannol 2020/21.

5.7 Unwaith eto, bydd incwm y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 yn is na'r trothwy o £2.5m ar gyfer paratoi ei ddatganiad o gyfrifon ei hun; felly, caiff "Adroddiad Blynyddol llai ar gyfer cyrff llywodraeth leol perthnasol yng Nghymru" ei gwblhau a'i archwilio ac, o ganlyniad, amcangyfrifir y bydd y ffi archwilio yn is gyda thanwariant o £11,000 ar y pennawd cyllideb Ffi Archwilio Allanol.

5.8 Rhagwelir tanwariant pellach o £5,250 ar bennawd cyllideb Bwrdd Cyflawni Busnes yn 2019/20.

Cyfraniadau Ariannu

5.9 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi derbyn £155,000 ar gyfer Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2021. Mae'n debygol y bydd grant penodol, yr amcangyfrifir i fod yn £45,145, yn cael ei hawlio yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a bydd angen cynllunio proffil gwario ar gyfer 2020/21 fel bod y Bwrdd Uchelgais yn derbyn uchafswm yr arian.

5.10 Cyflwynwyd cais ariannu Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Tachwedd 2019 ac maen nhw'n gweithio ar hyn gydag aelodau'r Grŵp Gweithredol ar hyn o bryd. Byddai cymeradwyo'r cyllid hwn yn golygu y gellid ariannu hyd at 50% o'r swyddi o fewn y Swyddfa Rheoli Rhaglen hyd at 2022/23. Yn seiliedig ar ein rhagamcan o wariant ar gyflogeion a chostau secondio staff o £99,215 ar gyfer 2019/20, gellid hawlio £49,608 o gyllid Grant ESF ar gyfer y cyfnod hwn. Os yw'n llwyddiannus, gallem hawlio 40% o gostau syml hefyd a gellid ôl-ddyddio'r grant ESF i fis Gorffennaf 2018, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn ein ffigyrau ar gyfer 2019/20.

5.11 Yn seiliedig ar ragamcanion diwygiedig, caiff £117,424 ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff hwn ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi sydd eisoes yn bodoli, i roi gweddill o £453,637 a fydd ar gael yn y dyfodol.

**6. Goblygiadau Staffio**

6.1 Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn yn adlewyrchu goblygiadau'r prosesau recriwtio sydd wedi digwydd yn ddiweddar.

**7. Cyllideb 2020/21**

7.1 Cyflwynir Cyllideb 2020/21 i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 20 Mawrth 2020.

**8. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

8.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 10 Ionawr 2020.

**9. Atodiad**

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2019/20 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2019).

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2019/20 - Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2019)** **Atodiad 1**

| Gwariant | Cyllideb Wreiddiol (£) | Trosglwyddiadau (£) | Cyllideb Ddiwygiedig (£) | Rhagfyr 2019 (9 mis) Gwirioneddol (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Amcangyfrif o Orwariant / (Tanwariant) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Rhaglen** | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 246,480 | (61,580) | 184,900 | 4,126 | 74,034 | (110,866) |
| Secondiad Staff | 0 | 0 | 0 | 0 | 25,181 | 25,181 |
| Ad-daliad Rheoli/Datblygu Rhaglenni | 0 | 0 | 0 | 62,484 | 62,484 | 62,484 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 0 | 0 | 0 | 49,729 | 49,729 | 49,729 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | 0 | 10,000 | 559 | 1,659 | (8,341) |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 11,620 | 0 | 11,620 | 4,485 | 5,485 | (6,135) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 45,000 | 0 | 45,000 | 11,550 | 17,150 | (27,850) |
| Ffi Archwilio Perfformiad | 12,500 | 0 | 12,500 | 0 | 0 | (12,500) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 | 0 | 10,000 | 1,046 | 10,000 | 0 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 43,480 | 0 | 43,480 | 42,282 | 42,282 | (1,198) |
| Eiddo | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 3,908 | (1,092) |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau | 319,800 | (91,040) | 228,760 | 100,701 | 189,086 | (39,674) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen** | **703,880** | **(152,620)** | **551,260** | **276,962** | **480,999** | **(70,261)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 105,710 | (22,720) | 82,990 | 0 | 71,920 | (11,070) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 16,000 | 0 | 16,000 | 0 | 16,000 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 29,400 | 0 | 29,400 | 11,712 | 29,400 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,760 | 0 | 2,760 | 0 | 2,760 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **153,870** | **(22,720)** | **131,150** | **11,712** | **120,080** | **(11,070)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | |
| Cytundeb Llywodraethu 2 - Cyfreithiol | 20,000 | 0 | 20,000 | 0 | 8,366 | (11,634) |
| Cytundeb Llywodraethu 1 - Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 1,634 | 1,634 | 1,634 |
| Ffi Archwilio Allanol | 12,500 | 0 | 12,500 | 0 | 1,500 | (11,000) |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 0 | 10,000 | 10,000 | 2,751 | 4,750 | (5,250) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **32,500** | **10,000** | **42,500** | **4,385** | **16,250** | **(26,250)** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **890,250** | **(165,340)** | **724,910** | **293,059** | **617,329** | **(107,581)** |

| Incwm | Cyllideb Wreiddiol<br>(£) | Trosglwyddiadau<br>(£) | Cyllideb Ddiwygiedig<br>(£) | Rhagfyr 2019 (9 mis) Gwirioneddol<br>(£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol<br>(£) | Amcangyfrif o Orwariant / (Tanwariant)<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - GA1** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) | 0 | (50,000) | (50,000) | (50,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Coleg Cambria | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (25,000) | 0 | (25,000) | (25,000) | (25,000) | 0 |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Eraill** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyfalafu Costau'r Prosiectau | (250,250) | 250,250 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sector Preifat (yn y dyfodol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) | 0 | (34,100) | (34,100) | (19,209) | (45,145) | (11,045) |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | 0 | (50,810) | (50,810) | 0 | (49,608) | 1,202 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(890,250)** | **165,340** | **(724,910)** | **(659,209)** | **(734,753)** | **(9,843)** |
| **Sefyllfa Gorwariant / (Tanwariant) cyn y trosglwyddiad i'r Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi** | **0** | **0** | **0** | **(366,150)** | **(117,424)** | **(117,424)** |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 0 | 0 | 0 | 0 | 117,424 | 117,424 |
| **Gorwariant / (Tanwariant) Net** | **0** | **0** | **0** | **(366,150)** | **0** | **0** |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**24ain IONAWR, 2019**

**TEITL:** *Cais Adeiladu Capasiti Sefydliadol ESF (Cronfa Gymdeithas Ewrop)*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw i ddiweddaru'r Bwrdd Uchelgais ar y cais am arian ESF, y Strwythur Staffio ac dyddiadau penodi'r swyddogion.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cymeradwyo'r Strwythur Staffio ar gyfer y Swyddfa Rhaglen, a dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad gyda Phrif Weithredwr y Corff Lletya ac Swyddog 151 y Corff Lletya i addasu'r strwythur fel yr angen o fewn y gyllideb.

2.2. Cymeradwyo'r dyddiadau cychwyn ar gyfer staff o fewn y strwythur staffio, ac penodi ir Swyddfa Rhaglen cyn y Cytundeb Terfynol, lle mae'r swyddi yn fforddiadwy o fewn y gyllideb graidd a chyllideb ESF.

2.3. Yn amodol gyda'r materion sydd wedi gosod allan yn yr adroddiad ar penderfyniad i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen gyda creu swyddi ac ymgymryd a proses benodi yn unol a Trefniadau a Polisïau'r Corff Lletya.

2.4. Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad gyda Prif Weithredwr y Corff Lletya a'r Swyddog 151 i dderbyn cynnig grant gan WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) yn seiliedig ar 50% o gyfanswm cost y prosiect (£5.8 miliwn) ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2018 hyd at Mehefin 2023.

2.5. Cadarnhau bydd y Bwrdd Uchelgais yn cytuno i gyfrannu 50% o arian cyfatebol yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau ac cyllideb craidd (o gyfraniadau partneriaid).

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae angen adnoddau staff er mwyn hwyluso'r Weledigaeth Twf a'r rhaglen waith, fel nodir yn yr adroddiad hwn.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4.1. Sefyllfa Bresennol**

4.1.1. Bydd y grant ESF yn rhoi arian i'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu'r Weledigaeth Twf, drwy sefydlu Swyddfa Rhaglen.

4.1.2. Bydd y grant ESF yn galluogi'r Bwrdd Uchelgais i ddylunio ac adeiladu capasiti ar lefel rhanbarthol (Gogledd Cymru). Er mwyn cefnogi'r newid tuag at lywodraethu rhanbarthol a gweithredu

elfennau allweddol fydd yn cyfarch Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ynghyd a'r Fframwaith Rhanbarthol gan Llywodraeth Cymru.

4.1.3. Cafodd fersiwn ddrafft o'r Cynllun Busnes ei gyflwyno i WEFO ar 21ain o Dachwedd, 2019 yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais ar 15ain Tachwedd, 2019.

4.1.4. Rydym wedi derbyn sylwadau gan WEFO ar y fersiwn drafft o'r Cynllun Busnes.

4.1.5. Yn dilyn fy mhenodiad yn mis Ionawr 2020, rwyf wedi trafod cynnwys y Cynllun Busnes a'r strwythur staffio gyda swyddogion perthnasol.

4.1.6. Mae'r Cynllun Busnes a'r strwythur staffio wedi ei addasu yn unol a'r sylwadau gan WEFO ynghyd a'r trafodaethau diweddar gyda swyddogion.

4.2. **Strwythur Staffio**

4.2.1. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cychwyn gyda tîm craidd o swyddogion wedi ariannu'n rhannol drwy'r grant ESF. I ddyddiad mae'r canlynol wedi ei penodi: Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithrediadau, Rheolwr Rhaglen Ddigidol (secondiad), Rheolwr Rhaglen Ynni a Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo. Wrth i waith y Swyddfa Rhaglen gynyddu gyda amser, bydd cyfle i ddatblygu'r tîm craidd.

4.2.2. Bydd swyddi ychwanegol yn cael ei penodi i'r Swyddfa Rhaglen yn dilyn cymeradwyaeth WEFO i'r cais ariannu.

4.2.3. Pan adroddwyd i'r Bwrdd Uchelgais nol yn mis Tachwedd 2019, roedd 4 swydd (Rheolwr Rhaglen Sgiliau, Rheolwr Rhaglen Gweledigaeth Twf, Rheolwr Prosiect ESF ac Swyddog Cefnogol Rhaglenni) wedi eu adnabod fel blaenoriaeth i benodi. Yn dilyn trafodaethau mae 5 swydd arall wedi ei adnabod fel blaenoriaeth, sef Rheolwr Prosiect Digidol, Rheolwr Prosiect Ynni, Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo, Rheolwr Prosiect Adfywio, Uwch Swyddog Gweithredol ac y Swyddog Cyfathrebu a Marchnata. Y nod yw i'r 10 swydd gael ei penodi rhwng Ebrill ac Hydref 2020 (yn ddibynnol ar gymeradwyaeth WEFO i'r Cynllun Busnes).

4.2.4. Bydd y 5 swydd sydd yn weddill i'w penodi yn cymryd lle ar ôl arwyddo'r Cynllun Terfynol, ar gyfer pwrpas y cais ariannu rydym wedi amcan bydd rhain yn cael ei penodi yn Ionawr 2021.

4.2.5. Mae'r rhestr isod yn amlinellu dyddiadau cychwyn y Swyddi o fewn yn y Swyddfa Rhaglen:

| Swydd | Dyddiad cychwyn |
|---|---|
| **Wedi penodi:** | |
| Cyfarwyddwr Rhaglen | 01/01/2020 |
| Rheolwr Gweithrediadau | 01/01/2020 |
| Rheolwr Rhaglen Digidol | 18/11/2019 |
| Rheolwr Rhaglen Ynni | 01/12/2019 |
| Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo | 01/04/2020 |
| **I'w penodi rhwng Ebrill a Hydref 2020** | |
| Rheolwr Rhaglen Sgiliau | 01/04/2020 |
| Rheolwr Rhaglen Gweledigaeth Twf | 01/10/2020 |
| Rheolwr Prosiect ESF | 01/04/2020 |
| Swyddog Cefnogi'r Rhaglen | 01/04/2020 |
| Rheolwr Prosiect Digidol | 01/04/2020 |
| Rheolwr Prosiect Ynni | 01/04/2020 |
| Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo | 01/09/2020 |
| Rheolwr Prosiect Adfywio | 01/09/2020 |
| Uwch Swyddog Gweithredol | 01/04/2020 |
| Swyddog Cyfathrebu a Marchnata | 01/04/2020 |
| **I'w penodi yn dilyn y Cytundeb Terfynol** | |
| Swyddog Prosiect Sgiliau | 01/01/2021 |
| Swyddog Prosiect Sgiliau | 01/01/2021 |
| Rheolwr Rhaglen Trafnidiaeth | 01/01/2021 |
| Rheolwr Prosiect Digidol | 01/01/2021 |
| Rheolwr Prosiect Trafnidiaeth | 01/01/2021 |

4.2.6. Mae'r strwythur amlinellol ar gyfer yr Arian ESF wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd dyddiad cychwyn y cais grant yn cael ei ôl-ddyddio i Gorffennaf 2018, a bydd yn dod i ben yn ystod Mehefin 2023. Drwy ôl-ddyddio y cais bydd yn galluogi'r rhanbarth i ad-hawlio costau'r Cyfarwyddwr Arweiniol oedd wedi secondio i'r Bwrdd Uchelgais, ynghyd a chefnogaeth yr Uwch Swyddog Gweithredol a'r Cefnogaeth Gweinyddol.

5.2. Mae'r cais grant i WEFO fel a ganlyn:

| Pennawd Cyllid | Cost |
|---|---|
| Costau Staff | £4.1 miliwn |
| Costau Syml (40%) [fydd yn cynnwys holl wariant arall o fewn y swyddfa rhaglen] | £1.7 miliwn |
| **Cyfanswm Gwariant y Grant** | **£5.8 miliwn** |

*(Weler 4.3.4, 4.3.5 ac 5.1 uchod am fanylion y costau staff)*

5.3. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn cyflwyno hawliadau ariannol rheolaidd i WEFO er mwyn hawlio'r grant ESF.

5.4. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cynnwys holl gostau staff cymwys ynghyd a chostau diswyddo cymwys. Ac yn unol a chanllawiau'r grant byddwn yn hawlio swm sylfaenol wedi ei gyfrifo fel 40% o gostau staff er mwyn cynnwys yr holl wariant arall o fewn y prosiect (hyfforddiant, costau rheoli

prosiect anuniongyrchol, costau i gefnogi'r hawliad, ayyb), neu ar gyfer arian cyfatebol, mae rhain yn cael ei galw'n Gostau Syml.

5.5. Mae cyfanswm gwariant y grant yn £5.8 miliwm, gyda £4.1 miliwn yn gostau staff ac £1.7 miliwn yn gostau syml (fydd yn cynnwys holl wariant arall o fewn y swyddfa rhaglen). Bydd y grant ESF ar gyfer y prosiect werth £2.9 miliwn (cyfradd grant o 50%), gyda'r gweddill o £2.9miliwn ei angen fel arian cyfatebol gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd cyfraniad arian cyfatebol gan y Bwrdd Uchelgais yn dod yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau ac cyllideb craidd (o gyfraniadau partneriaid). Bydd y dyddiad ar gyfer cyfalafu prosiectau yn rhan o drafodaethau negydu y Cynllun Twf Terfynol.

5.6. Os na fydd cytundebau staff yn cael ei ymestyn tu hwnt i gyfnod y grant ESF, bydd costau diswyddo yn berthnasol ar gyfer y prosiect. Bydd y costau staff (yn 5.2. uchod) yn cynnwys costau ymddiswyddo cymwys ar gyfer staff tra'n gyflogedig gan y Swyddfa Rhaglen. Fel sydd wedi drafod eisoes, lle'n bosibl bydd y Bwrdd Uchelgais yn neilltuo arian mewn cronfa wrth gefn at y diben yma.

5.7. Bydd cynnwys y 10 swydd sydd wedi nodi yn paragraff 4.2.3 uchod yn fforddiadwy o fewn cyllideb 2020/21 ac o fewn y gyllideb craidd os fydd y grant arian ESF yn cyrraedd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd cyflwyno y cais grant ac derbyn y cynnig grant yn cael ei weithredu gan y Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog 151 y Corff Lletya ar ran y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd fynd gyda gofynion Cytundeb Llywodraethu 1.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Fel sydd wedi nodi yn yr adroddiad.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd a cymeradwywyd y Cynllun Busnes gwreiddiol a'r strwythur staff arfaethedig gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 25 Hydref, 2019. Mae trafodaethau pellach wedi cymryd lle gyda WEFO, swyddogion ac Adran Gyllid Cyngor Gwynedd.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Lletya:**

"Mae'r adroddiad yn gosod allan yr ystyriaethau priodol ar gyfer penderfyniad y Bwrdd ac yn cynnig trefn dirprwyo priodol sydd yn adlewyrchu yr oblygiadau ariannol sydd yn berthnasol. Nodaf y bydd y Awdurdod Lletyol yn ymrwymo i'r grant ac yn cyflogi'r staff a o fewn y darpariaethau a'r gwarchodaeth yn GA1."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Lletya):**

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol o'r cynnwys."